Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

GATE
sicrhau gwerth ychwanegol i goed yn ewrop
gaining added value for timber in europe

North East South West INTERREG IIIC

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

GATE – Sicrhau gwerth Ychwanegol i Goed yn Ewrop

'Prosiect Rhyngranbarthol a ariennir gan yr UE, gyda Chomisiwn Coedwigaeth Cymru yn Bartner â'r Prif Gyfrifoldeb'

Cynnwys: Tudalen

Crynodeb Gweithredol 2
Cyflwyniad 3
Hanes y Prosiect 3
Crynodeb o'r Prosiect 3
Sut y mae'r Prosiect yn Gweithio 4
Amcanion y Prosiect 4
Canlyniadau 5
Costau 5
Rhanddeiliaid 5
Cysylltiadau â Chynllun Corfforaethol
Comisiwn Coedwigaeth Cymru, gweler y dudalen ar wahân

(O bapur a baratowyd gan Mike Over, Rheolwr Prosiect GATE)

Manteision i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac i Ewrop

Crynodeb Gweithredol

Prosiect Rhwydwaith yw GATE, rhan o raglen INTERREG IIIC

Ffurf ar gydweithrediad a luniwyd yn benodol ar gyfer rhannu profiad mewn grŵp o sefydliadau cyhoeddus sydd â'r un nodweddion yn perthyn iddynt.

Comisiwn Coedwigaeth Cymru yw'r Partner â'r Prif Gyfrifoldeb ar gyfer GATE; y partneriaid eraill yw:
Siambr Fasnach Canolfan Amgylchedd Dwyrain Thwringia
Adran Gwyddor Pren, Prifysgol Ljubljana, Slofenia
Cymdeithas Dwristiaeth Cymunedau (BOR), Pomorskie, Gwlad Pwyl
Parc Gwyddoniaeth Tartu, Estonia

Amcan cyffredinol y prosiect yw codi ymwybyddiaeth o'r cysylltiad rhwng pren, adeiladu cynaliadwy a datblygiad rhanbarthol cynaliadwy. Nod y prosiect yw cynyddu'r defnydd o bren yn y diwydiant adeiladu trwy fynd i'r afael â'r polisïau, y canfyddiadau, y rhwystrau technegol ac economaidd sy'n cyfyngu ar y defnydd ohono ar hyn o bryd.

Mae'r prosiect yn cysylltu â nifer o gamau gweithredu yng Nghynllun Corfforaethol Comisiwn Coedwigaeth Cymru:

- Datblygu tai fforddiadwy yng nghefn gwlad
- Bod yn gatalydd i adfywiad economaidd lleol
- Adeiladu cynaliadwy trwy ddefnyddio pren o Gymru
- Cyflenwad o gynhyrchion pren o ansawdd da iawn
- Datblygu cynhyrchion newydd o goetiroedd
- Darparu mynediad gwell at gynhyrchion coetiroedd i fusnesau
- Hyrwyddo defnydd gwerth uchel yn y pen draw i gynhyrchion coetiroedd
- Gwell mynediad at adnoddau coetiroedd ar gyfer cymunedau a busnesau
- Hyrwyddo defnyddiau tymor-hir o bren i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd
- Dulliau cynllunio ac adeiladu yn addasu i newid yn yr hinsawdd
- Dylanwadu ar Strategaeth Goetiroedd Cymru
- Cyfathrebu effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Gwneud y defnydd gorau o gyllid
- Rheoli ac arwain prosiectau yn effeithiol ac yn effeithlon
- Rheolaeth ariannol dryloyw

Gweler y daenlen atodol am restr canlyniadau penodol GATE sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r camau gweithredu hyn.

GATE – Sicrhau gwerth Ychwanegol i Goed yn Ewrop

Cyflwyniad

1. Mae GATE yn rhan o raglen INTERREG IIIC. Mae'r rhaglen hon wedi'i llunio i gryfhau cydlyniad economaidd a chymdeithasol yn yr Undeb Ewropeaidd trwy hyrwyddo cydweithredu rhyngranbarthol. Y nod cyffredinol yw gwella effeithiolrwydd polisïau datblygu rhanbarthol trwy gyfnewid gwybodaeth ar raddfa eang a rhannu profiad mewn ffordd strwythuredig.

2. Ariennir rhaglen INTERREG IIIC gan Gronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewrop ac fe'i hariennir ar y cyd gan bartneriaid y prosiect. Ystyrir bod GATE yn brosiect Rhwydwaith sy'n ddull o gydweithredu a luniwyd yn benodol ar gyfer cyfnewid profiad mewn grŵp o sefydliadau cyhoeddus sydd â'r un nodweddion, sy'n wynebu'r un problemau neu'n ymdrin â'r un materion.

3. Comisiwn Coedwigaeth Cymru yw'r partner â'r prif gyfrifoldeb am GATE. Y partneriaid eraill yw Siambr Fasnach Canolfan Amgylchedd Dwyrain Thwringia, Adran Gwyddor Pren, Prifysgol Ljubljana, Slofenia, Cymdeithas Dwristiaeth Cymunedau (BOR), Pomorskie, Gwlad Pwyl a Pharc Gwyddoniaeth Tartu, Estonia.

Hanes y Prosiect

Dechreuodd prosiect GATE ar ffurf partneriaethau a ddatblygwyd trwy TWIG - Grŵp Diwydiannau Coetir Trawsgenedlaethol, a ariannwyd gan RECITE II (1999 - 2002). Y partneriaid oedd Yr Almaen, Gwlad Groeg a'r Deyrnas Unedig (y Chilterns). Ar y cychwyn, Thwringia a gymerodd y prif gyfrifoldeb o chwilio am bartneriaid newydd er mwyn adeiladu prosiect newydd.

Trwy drafodaethau partner, mae GATE wedi datblygu yn brosiect sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio pren ar gyfer adeiladu mwy cynaliadwy, gyda phwyslais penodol ar y berthynas â pholisïau datblygu cynaliadwy rhanbarthol, ac ar rannu profiad o ran rhaglenni Amcan 1 a 2.

Yn nigwyddiad Interreg i chwilio am bartneriaid, a gynhaliwyd yn ninas Berlin ar ddechrau 2003, cyfarfu Mr Frank Hohle o Thwringia â Francis Cairns o lywodraeth ranbarthol Cymru, a nododd mai Comisiwn Coedwigaeth Cymru fyddai'r sefydliad partner mwyaf addas yng Nghymru. Cymeradwywyd y prosiect gan y JTS ar y trydydd cynnig, yn dilyn derbyn gwybodaeth ymateb fanwl, ym mis Medi 2004.Bydd y prosiect yn para tan 31 Rhagfyr 2007.

Crynodeb o'r Prosiect

Mae tair rhan i GATE:

1. Rheoli a Chydlynu

I sicrhau bod y prosiect yn rhedeg yn llyfn ac yn effeithlon ynghyd â chyfathrebu da rhwng y partneriaid.

2. Rhannu profiad
Rhannu profiad rhwng rhanbarthau partner ar eu profiad o brosiectau cyllid strwythuredig, y sefyllfa gyfredol o ran y diwydiannau pren ac adeiladu, a dylanwad polisïau rhanbarthol ar gynyddu faint o bren a ddefnyddir ar gyfer adeiladu.

3. Cyfathrebu a Lledaenu
Lledaenu a dangos perthnasedd canlyniadau'r prosiect i amrywiaeth eang o wneuthurwyr polisi a rhanddeiliaid, yn y rhanbarthau sy'n cymryd rhan yn y prosiect ac i ranbarthau eraill nad ydynt yn rhan o'r prosiect, fel ei gilydd.

Sut y mae'r Prosiect yn Gweithio

Trwy ystyried beth yw'r syniadau gorau o bob un o'r rhanbarthau partner a'u rhoi ar waith ar draws y rhaglen gyfan. Rhannu profiad ac arfer gorau drwy:

- Seminarau rhyngranbarthol ac ymweliadau â safleoedd bob chwe mis
- Cyfarfodydd grwpiau canolbwyntio
- Ymweliadau cyfnewid gan randdeiliaid
- Cynhadledd agoriadol a chynhadledd i gloi yng Nghymru
- Digwyddiadau lleol ym mhob rhanbarth
- Cystadleuaeth gynllunio i fyfyrwyr
- Gwefan www.gate-project.org a luniwyd ac a reolwyd gan Gymru

Amcanion y Prosiect

Amcan cyffredinol y prosiect yw codi ymwybyddiaeth o'r cysylltiad rhwng pren, adeiladu cynaliadwy a datblygiad rhanbarthol cynaliadwy. Nod y prosiect yw cynyddu'r defnydd o bren yn y diwydiant adeiladu trwy ymdrin â phedair thema gyffredinol:

1. Canfyddiad – newid barn y cyhoedd, penseiri, cynllunwyr, adeiladwyr a gweddill y diwydiant adeiladu am bren. Ymdrin â'r canfyddiad o ddeunyddiau o ansawdd gwael, sef bod pren yn pydru ac yn crebachu a bod tŷ pren yn fwy o risg o ran mynd ar dân.

2. Economaidd – dangos sut y gall defnyddio pren lleol ar gyfer adeiladu'n lleol chwarae rhan mewn adfywio economaidd, gan greu swyddi newydd a chadw'r cyfoeth yn lleol.

3. Technegol – archwilio'r datblygiadau diweddaraf mewn cynllunio, prosesu a thriniaeth sy'n gwneud pren yn ddeunydd amgen gwirioneddol i ddur, concrid a briciau.

4. Polisi – sut y gellir gwneud newidiadau i bolisïau a rheoliadau cyfredol fel y bo pren yn cael ei drin yn gyfartal â deunyddiau eraill.

Yr is-amcanion yw:

- Rhoi prosiect Interreg effeithlon ac effeithiol ar waith, gan greu cysylltiadau proffesiynol a chyfeillgar â chymheiriaid mewn rhanbarthau partner eraill.
- Nodi'r polisïau, y strategaethau, y rhaglenni a'r prosiectau cronfeydd strwythurol mewn rhanbarthau, er mwyn hwyluso rhannu profiad a nodi'r arfer gorau
- Nodi sefyllfa gyfredol y diwydiant pren yn y rhanbarthau sy'n cymryd rhan (dadansoddiad SWOT)
- Dod ynghyd â llunwyr polisi, y rhai sy'n creu barn a'r rhanddeiliaid economaidd a thechnegol allweddol er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â phren yn y diwydiant adeiladu a rhannu'r arfer gorau o'r gwahanol ranbarthau.
- Trosglwyddo prosiectau arfer da o un rhanbarth i'r llall.
- Bod effaith y prosiect yn cyrraedd y lefel uchaf posibl yn y rhanbarthau partner a thu hwnt, trwy ymgyrch gyfathrebu effeithiol gan gynnwys gwefan a chynhadledd ryngwladol derfynol.
- Dylanwadu ar newidiadau cadarnhaol ym mholisïau caffael awdurdodau lleol a sefydliadau eraill yn y rhanbarthau fel y bônt yn fwy o blaid pren fel deunydd adeiladu cynaliadwy.

Canlyniadau

- Sefydlu rhwydwaith o randdeiliaid allweddol a chysylltiadau rhwng cymheiriaid mewn rhanbarthau gwahanol trwy weithgorau, cynadleddau a chyfnewid.
- Deall y materion gwahanol sy'n effeithio ar y sector pren mewn rhanbarthau gwahanol, a throsglwyddo'r arfer gorau.
- Deall y defnydd gwahanol a wneir o gronfeydd strwythurol i fynd i'r afael â'r maes hwn a throsglwyddo'r arfer gorau.
- Codi ymwybyddiaeth o'r cysylltiad rhwng y defnydd o bren mewn adeiladu a datblygiad rhanbarthol cynaliadwy.
- Codi ymwybyddiaeth am fanteision amgylcheddol, technegol ac economaidd gwneud mwy o ddefnydd o bren mewn adeiladu a fydd yn arwain at gynyddu'r defnydd o bren.
- Defnydd mwy effeithiol o gronfeydd strwythurol er lles y sector pren.
- Polisïau rhanbarthol gwell sy'n effeithio ar y materion hyn.
- Cysylltiadau hirdymor wedi'u sefydlu rhwng y rhanbarthau partner, sefydliadau ac unigolion a fydd yn creu manteision ymhell ar ôl i'r ariannu orffen.

Costau

Cyfanswm gwariant Cymru yn ystod tair blynedd y prosiect yw £244 o filoedd ac mae £183 o filoedd o hyn wedi dod o gronfeydd yr UE a £61 o filoedd oddi wrth Gomisiwn Coedwigaeth Cymru.

Rhanddeiliaid

Mae rhanddeiliaid yn elfen hanfodol o'r prosiect. Mae pob rhanbarth bartner GATE yn cydlynu rhwydwaith rhanddeiliaid sy'n cynnwys cynrychiolwyr o fyd busnes, sefydliadau a grwpiau proffesiynol sydd â diddordeb a dylanwad ar sut a pham y dewisir pren ar gyfer prosiect penodol.

Mae'r rhwydweithiau hyn bellach wedi'u sefydlu'n dda ac maen nhw'n cynnwys tyfwyr coed, melinyddion llifio trwy'r gadwyn gyflenwi at wneuthurwyr lloriau neu fframiau pren. Maent hwy hefyd yn cynnwys peirianwyr ac adeiladwyr, penseiri a chynllunwyr.

Bydd y rhwydweithiau rhanddeiliaid hyn yn para i gydweithio a chyfnewid arfer gorau ymhell ar ôl i'r prosiect ddod i ben. Parheir i gynnal y wefan a bydd honno'n cynnwys cyfeirlyfr o randdeiliaid.